

# Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

## Welsh Language Advisory Panel

19 Gorffennaf 2018 am 2 o'r gloch

Ystafell Gynadledda'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir,  
Caerfyrddin / Democratic Services' Unit Committee Room, County Hall, Carmarthen

### COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. John Prosser	JP	Llafur
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol (Is-gadeirydd)
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Cyng. Tina Higgins	TH	Llafur
<b>Swyddogion</b>		
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Bethan James	BJ	Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg
Sioned Raymond	SR	Disgybl Ysgol Bro Myrddin ar brofiad gwaith
Carys Ifan	CI	Cyfarwyddwr Canolfan S4C Yr Egin

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b>  Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths.  Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Fozia Akhtar, Cynghorydd Sue Allen, Cynghorydd Joseff Davies, Cynghorydd Alun Lenny, Cynghorydd Dorian Williams, Wendy Walters, Gwyneth Ayers a Myfanwy Jones.  Croesawyd Sioned Raymond i'r cyfarfod sy ar brofiad gwaith gyda'r Cyngor ar hyn o bryd.	
2.	<b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf 8.5.18</b>  Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.	
3.	<b>Adroddiad Blynyddol</b>  Nododd BJ fod yr Adroddiad Blynyddol Gweithredu o ran y Gymraeg 2017/18 yn mynd trwy'r broses ddemocrataidd ar hyn o bryd ac wedi cael ei drafod ym Mhwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau heddiw a bydd yn cael ei drafod ym Mwrdd Gweithredol y Cyngor Sir ar ddydd Llun 30 Gorffennaf. Yn dilyn hynny bydd yn	

	<p>cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn er gwybodaeth a bydd ar gael i'w gyrchu ar wefan y Cyngor.</p> <p>Soniodd BJ am bwysigrwydd penodiad yr Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu o ran yr iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn gan sôn am yr holl gyrsiau sydd wedi cael eu cynnig i staff yn ystod y misoedd diwethaf. Nododd fod 40 o aelodau o staff wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau dwys (Mynediad, Sylfaen a Chanolradd) sydd wedi cael eu marchnata yn ddiweddar a byddant yn dechrau yn yr Hydref. Soniwyd bod 239 wedi cofrestru hyd yn hyn ar gyfer y Cwrs Cymraeg 10 awr ar-lein. Cytunwyd i anfon neges at y rhai sydd heb gwblhau'r cwrs er mwyn eu hannog i ailymweld â'r safle.</p> <p>Dywedodd BJ fod swyddi'r Arweinwyr laith yn allweddol i'r tîm polisi wrth iddynt drosglwyddo a rhaedru negeseuon i'w timoedd yn y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, mae criw o Arweinwyr laith o'r Adran Cymunedau a thîm gwasanaethau plant o'r Adran Addysg wedi cael eu hyfforddi i greu cyfanswm o dri grŵp wrth gynnwys Arweinwyr laith Hamdden ac Arweinwyr laith Adran yr Amgylchedd.</p> <p>Mae'r tîm polisi yn parhau i weithio gydag Adran Adnoddau Dynol er mwyn cefnogi gweithredu'r Strategaeth Sgiliau laith lle mae cynnydd wedi bod o ran gosod Cytundebau Dysgu ar gyfer swyddogion newydd.</p> <p>Soniwyd am yr ymgyrch o chwarae cerddoriaeth Gymraeg yng Nghanolfannau Hamdden Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman a lansiwyd ar ddydd Miwsig Cymru ym mis Chwefror gan gyfeirio at y bwriad o ymestyn yr ymgyrch i'r theatrau a'r marchnadoedd.</p> <p>Wrth gyfeirio at Ganllawiau'r Safonau a'r Adnoddau i staff sydd ar y fewnwyd, gofynnodd CJ a oedd modd darparu Canllawiau ar gyfer newid y teclynnau Lenovo Miix i fod yn Gymraeg. Bydd BJ yn anfon cyfarwyddiadau cyn gynted â phosib.</p> <p>Cyfeiriodd BJ at y Fforwm Strategol Sirol a'r Strategaeth Hybu a soniwyd am y taflenni maent wedi cynhyrchu. Cytunwyd i anfon neges at y Cynghorwyr gyda dolen i 'Bod yn ddwyieithog' gan ofyn iddynt faint o daflenni maent eisiau er mwyn eu dosbarthu.</p> <p>Nodwyd bod atodiadau yn y ddogfen er gwybodaeth, megis esboniadau am y cwynion a dderbyniwyd a'r niferoedd sydd wedi mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg.</p>	<p>BJ</p> <p>BJ</p> <p>MJ</p>
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Cyflwyniad am yr Egin gan Carys Ifan</b></p> <p>Croesawyd Carys Ifan i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths.</p> <p>Soniodd Carys bod yr adeilad newydd wedi cael ei adeiladu yn dilyn y cyhoeddiad bod Caerfyrddin wedi ennill y cais wrth i S4C chwilio i adleoli, a bod yr adeilad yn wych a'r sgôp yn gyffrous iawn.</p> <p>Dywedodd CI bod cyhoeddiad wedi bod yn gynharach heddiw sef bod 10 cwmni wedi cadarnhau eu bod am symud i'r Egin. Ar y llawr gwaelod bydd caffi, awditoriwm bach i 120 o bobl, ac yn y canol bydd 'Y Galon' sef ardal lle bydd y cyhoedd yn gallu defnyddio adnoddau ôl-gynhyrchu. Bydd S4C wedi eu lleoli ar yr ail lawr a'r tenantiaid ar y llawr uchaf.</p> <p>Y bwriad yw i greu clwstwr creadigol a bydd y tenantiaid newydd yn llwyddo i greu hyn. Y 10 cwmni yw Atebol, Big Learning Company, Captain Jac, Asset</p>	

	<p>Finance Solutions, Gorilla, Highly, Lens 360, Moelin, Optimwm a Trywydd. Mae'r Egin yn dal i drafod gyda chwmnïoedd eraill ond mae 74% o'r adeilad wedi ei lenwi.</p> <p>Mae mwyafrif o'r cwmnïau yn gweithio'n Gymraeg neu'n ddwyieithog ac mae cyfle i'r staff sydd ddim yn siarad Cymraeg i ddysgu.</p> <p>Mae'r ganolfan yn fwy nag adeilad, mae'n ffordd i ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn Sir Gâr a chyfeiriodd CI at y ffaith bod y ganolfan wedi derbyn arian LEADER.</p> <p>Mae'r Egin yn le i berfformio, yn le i greu, i rannu sgiliau ac uwch-sgilio. Bydd adnoddau ar gael i'w defnyddio ynghyd ag ardal ôl-gynhyrchu. Bydd yr ardal denantiaid ar yr un llawr ag ardal gydweithio. Bydd yr Egin yn creu cymuned greadigol. Bydd modd creu prosiectau gyda'i gilydd a thafu syniadau er mwyn creu rhywbeth newydd. Nododd CI bod ei swydd yn swydd eang fel Cyfarwyddwr sy'n cynnwys trafod gydag amryw o bobl a sefydliadau a nododd ei bod eisoes wedi bod yn sgysio gydag Adran Addysg y Cyngor Sir am y posibiladau o gydweithio.</p> <p>Mae Canolfan Yr Egin yn gobeithio gweithio gyda disgyblion ysgolion uwchradd hefyd gan roi cyfle iddynt siarad gyda'r tenantiaid. Bydd hyn yn gyfle i'r disgyblion drafod eu gyrfa.</p> <p>Soniodd CI bod y Ganolfan hefyd yn awyddus i weithio gyda myfyrwyr prifysgolion a bod cyfle i fyfyrwyr i ennill gradd Meistr wrth wneud ymchwil i'r Ganolfan.</p> <p>Bydd pythefnos o ddathliadau rhwng 22 Hydref a 3 Tachwedd lle bydd rhaglen o weithgareddau. Dywedodd CI ei bod yn gobeithio bydd taith lanterni trwy'r dre hefyd i ddathlu agoriad yr adeilad.</p> <p>Mae'r Egin yn gobeithio gweithio gyda chymunedau er mwyn creu fideos balchder bro a bydd Yr Egin yn gallu dangos y clipiau fideos yn yr adeilad.</p> <p>Nododd CI bod nifer o ddiwrnodau agored wedi bod a bod diwrnod agored diwethaf yr Egin ar 27 Gorffennaf rhwng 12 a 2. Mae angen cofrestru a hynny naill ai ar <a href="http://tocyn.cymru">tocyn.cymru</a> neu drwy e-bostio <a href="mailto:yregin@pcydds.ac.uk">yregin@pcydds.ac.uk</a> Bydd y daith o amgylch yr adeilad yn para tua hanner awr a dyma'r cyfle olaf i weld yr adeilad cyn yr agoriad yn yr Hydref.</p>	
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pecyn Croeso</li> </ul> <p>Amlinellodd LIE brif negeseuon y pecyn croeso gan ddiolch i'r Cynghorwyr am eu mewnbwn yn y cyfarfod blaenorol. Soniodd LIE bod y Cyngor Sir wedi derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru o ran y gwaith dylunio ac argraffu a gofynnwyd am syniadau o ran dosbarthu'r pecyn croeso i fewnfudwyr.</p> <p>Gofynnwyd am gyflenwad i'r Cynghorwyr ac awgrymwyd i anfon pecynnau i ysgolion i ddsbarthu i deuluoedd newydd.</p> <p>Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o anfon y pecyn croeso gyda chardiau Meddygol Newydd ac wrth gofrestru ar gyfer Treth y Cyngor.</p> <p>Soniwyd hefyd am gadw cyflenwad yn y Llyfrgelloedd a'r Llyfrgelloedd symudol.</p>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Comisiynydd y Gymraeg</li> </ul> <p>Soniodd LIE y bydd y tîm polisi yn rhoi diweddariad i'r Cynghorwyr pan fydd unrhyw wybodaeth yn cyrraedd ynglŷn â phenodi Comisiynydd y Gymraeg neu unrhyw ddatblygiadau o ran newid yn y ddeddfwriaeth i sefydlu Comisiwn. Mae'r safonau yn parhau i fod yr un mor berthnasol i'r Cyngor Sir.</p>	
<b>6.</b>	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b></p> <p>25 Medi 2018 am 2 o'r gloch</p>	